Hawdd ei Deall

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Gwneud y gwaith o gasglu'r Dreth Gyngor yn deg ac yn hawdd ei reoli

## Rydyn ni eisiau gwybod beth rydych chi'n ei feddwl




Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan **Lywodraeth Cymru**. Mae'n fersiwn hawdd ei deall o '**Gwella'r gwaith o weinyddu a gorfodi'r Dreth Gyngor yng Nghymru**'.

**Ebrill 2025**

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma ddogfen hawdd ei deall. Efallai y byddwch chi angen help o hyd i'w darllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu chi.

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Llywodraeth Cymru**. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:


**Cyfeiriad:** Polisi'r Dreth Gyngor
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

**Email:** CTaNDR.Ymgyngoriadau@llyw.cymru


Mae'r ddogfen yma wedi cael ei gwneud yn hawdd ei deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols.** I ddweud wrthym ni beth yw eich barn am y fersiwn hawdd ei ddeall hon, cliciwch yma.

Rhif trwydded Photosybols 403527247

# Cynnwys


**Am y ddogfen yma** .......... **4**

**Am y Dreth Gyngor** .......... **5**

**Beth rydyn ni wedi'i wneud hyd yma** .......... **7**

**Sut mae'r system Dreth Gyngor yn gweithio nawr** .......... **10**

Biliau'r Dreth Gyngor .......... 10

Beth sy'n digwydd os byddwch chi'n methu taliad y Dreth Gyngor .. 12

**Ein syniadau a'n cynlluniau newydd** .......... **17**

# Am y ddogfen yma




Rydyn ni eisiau gwneud y Dreth Gyngor yn fwy teg.



Mae'r Dreth Gyngor yn arian rydych chi'n ei dalu i'ch cyngor lleol. Mae'n helpu i dalu am eich gwasanaethau lleol.



Rydyn ni eisiau gwybod beth rydych chi'n ei feddwl am ein syniadau ar gyfer gwneud y gwaith o gasglu'r Dreth Gyngor yn fwy teg.




Rydyn ni eisiau gwybod beth rydych chi'n ei feddwl erbyn **23 Gorffennaf 2025**.




Darllenwch y llyfryn yma ac yna atebwch y cwestiynau yn y ffurflen ymateb.

# Am y Dreth Gyngor



Rhaid i'r rhan fwyaf o bobl dalu'r Dreth Gyngor.




Does dim rhaid i rai pobl ei thalu. Mae hyn yn cael ei alw'n **eithriad**.



Mae pobl yn aml yn meddwl bod y Dreth Gyngor yn talu am gasglu biniau yn unig. Dydy hyn ddim yn wir.



Mae'r Dreth Gyngor yn helpu i dalu am wasanaethau lleol pwysig, gan gynnwys:

- Ysgolion
- Gofal cymdeithasol
- Trafnidiaeth a ffyrdd
- Tai
- Gwasanaethau tân ac achub
- Heddlu
- Llawer o wasanaethau eraill



Mae'r swm rydych chi'n ei dalu yn dibynnu ar:

- Faint ydy gwerth eich cartref
- Pwy sy'n byw gyda chi
- Os ydych chi'n cael unrhyw ddisgownt neu gymorth



Gyda'n gilydd, rydyn ni'n talu dros £2.8 biliwn bob blwyddyn yng Nghymru.



Mae hyn yn rhan o gyfanswm cost gwasanaethau lleol, sydd tua £11 biliwn.




Rydych chi'n gallu gweld beth mae eich Treth Gyngor yn talu amdano yma: [www.llyw.cymru/darganfyddwch-beth-mae-eich-treth-gyngor-yn-talu-amdano](https://www.llyw.cymru/darganfyddwch-beth-mae-eich-treth-gyngor-yn-talu-amdano)

# Beth rydyn ni wedi'i wneud hyd yma



Rydyn ni wedi gwneud y Dreth Gyngor yn fwy teg dros amser.



Yn 2011, fe wnaethon ni newid y swm sy'n cael ei godi arnoch chi os byddwch chi'n gorfod mynd i'r llys am beidio â thalu eich Treth Gyngor.



Yn 2013, fe wnaethon ni greu'r **Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor** i helpu pobl ar incwm isel. Mae swm y cymorth wedi cael ei newid bob blwyddyn i gyd-fynd â'r cynnydd yn y costau byw.



Yn 2018, fe wnaethon ni helpu pobl sydd angen cymorth drwy:

- Atal pobl ifanc sy'n gadael gofal rhag gorfod talu'r Dreth Gyngor nes eu bod yn 25 oed.
- Ei gwneud hi'n haws i bobl â phroblemau iechyd meddwl difrifol hawlio **eithriad.**

Yn 2019, fe wnaethon ni gymryd y camau yma:



- Dod â'r risg o fynd i'r carchar i ben am beidio â thalu'r Dreth Gyngor.




- Dechrau canllawiau newydd o'r enw y Protocol Treth Gyngor i helpu cynghorau i gasglu'r Dreth Gyngor yn deg.




Yn 2024, pasiwyd deddf newydd o'r enw Deddf Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) 2024.




Mae hyn yn meddwl y byddwn ni'n edrych ar werthoedd eiddo ac yn eu newid yn 2028. Fe fydd bandiau'r Dreth Gyngor yn cael eu gwneud yn fwy teg. Fe fydd y system yn cael ei hadolygu bob 5 mlynedd.



O fis Ebrill 2025 ymlaen, rydyn ni'n:

- Ei gwneud hi'n haws cael help i leihau biliau'r Dreth Gyngor drwy ddefnyddio data Credyd Cynhwysol.

- Profi cynllun newydd o'r enw Cynllun Achub rhag Dyledion ym Merthyr Tudful, Blaenau Gwent, a Chasnewydd.





Rydyn ni hefyd yn cynnal ymgyrchoedd ymwybyddiaeth i helpu pobl i hawlio'r cymorth maen nhw'n gallu ei gael: www.llyw.cymru/ymgyrch-hawliwch-yr-hyn-syn-ddyledus-i-chi



Rydyn ni'n cefnogi cyngor dibynadwy, am ddim drwy'r **Gronfa Gynghori Sengl**.

# Sut mae'r system Dreth Gyngor yn gweithio nawr

## Biliau'r Dreth Gyngor




Bob blwyddyn ym mis Ebrill, bydd eich cyngor yn anfon bil Treth Gyngor atoch chi. Mae hyn hefyd yn cael ei alw'n **hysbysiad galw am Dalu'r Dreth Gyngor**.

Bydd y bil yn dweud wrthych chi:




- Faint sydd angen i chi ei dalu am y flwyddyn.




- Sut mae'r swm wedi cael ei gyfrifo.



- Y dyddiadau talu.




Rydych chi’n gallu talu mewn 10 neu 12 taliad misol. Neu i gyd ar unwaith, ar ddechrau’r flwyddyn.




Fel arfer, rydych chi’n gallu talu:

- ar-lein,
- drwy Ddebyd Uniongyrchol,
- neu drwy arian parod gan ddefnyddio PayPoint, Payzone, neu Quickcards.




Fe fydd eich bil yn dweud wrthych chi am bob ffordd bosib o dalu.

# Beth sy’n digwydd os byddwch chi’n methu taliad y Dreth Gyngor



Fe ddylech chi geisio eich gorau i dalu eich Treth Gyngor ar amser.




Weithiau, mae pobl yn mynd ar ei hôl hi gyda’u taliadau. Mae hyn yn gallu digwydd os:

- Rydych chi ar incwm isel.
- Rydych chi’n cael trafferth rheoli arian.
- Rydych chi’n colli eich swydd.
- Rydych chi’n mynd yn sâl.
- Bydd rhywbeth yn newid yn sydyn yn eich bywyd.




Os byddwch chi’n methu taliadau, mae eich cyngor yn gallu cymryd camau i gael yr arian yn ôl.



Cysylltwch â'ch cyngor cyn methu taliad os ydych chi'n gallu. Mae cynghorau eisiau helpu. Maen nhw'n gallu:




- Edrych i weld a ydych chi'n gallu cael disgownt neu **eithriad**.




- Newid eich dyddiad talu.
- Gadael i chi dalu dros 12 mis yn lle 10 mis.



- Cynnig cynllun talu newydd, weithiau dros amser hirach.
- Helpu chi i edrych a ydych chi'n gallu cael budd-daliadau.



- Anfon chi at dimau neu grwpiau sy'n rhoi cyngor ariannol, fel Cyngor ar Bopeth.

## Hysbysiad atgoffa



Os byddwch chi'n methu eich taliad Treth Gyngor, efallai y bydd eich cyngor yn cysylltu â chi drwy:

- Neges destun
- E-bost
- Ffôn



Os nad ydych chi wedi talu o hyd, fe fyddwch chi'n cael nodyn atgoffa drwy lythyr neu e-bost. Mae gennych chi 7 diwrnod i dalu ar ôl y nodyn atgoffa.

## Hysbysiad terfynol




Mae hysbysiad terfynol yn gofyn i chi dalu'r taliad rydych chi wedi'i fethu o fewn 7 diwrnod.




Os nad ydych chi'n talu, rhaid i chi dalu'r swm blynyddol llawn.



Os na fydd y swm llawn yn cael ei dalu, mae’r cyngor yn gallu:

- Anfon hysbysiad llys – dyma ddogfen sy’n dweud wrthych chi fod achos llys wedi’i gychwyn.

- Gofyn i’r llys gasglu’r arian, ac unrhyw ffioedd a chostau.

## Gorchymyn atebolrwydd

Os na fyddwch chi’n talu cyn y dyddiad llys, neu ar ôl y dyddiad hwnnw:




- Mae’r cyngor yn gallu gofyn i’r llys am **orchymyn atebolrwydd**.



- Mae’r gorchymyn yma’n caniatáu i’r cyngor gymryd camau i gael yr arian sy’n ddyledus gennych chi.

Ar ôl y **gorchymyn atebolrwydd**, rydych chi'n dal i allu:



- Talu'r swm llawn.




- Sefydlu cynllun ad-dalu gyda'r cyngor.

Os na fyddwch chi'n talu, mae'r cyngor yn gallu:



- Anfon pobl sy'n cael eu cyflogi gan y llys neu'r cyngor i gymryd eitemau o'ch eiddo.
- Gofyn i'ch cyflogwr gymryd arian o'ch cyflog.



- Tynnu arian o'ch budd-daliadau.
- Rhoi tâl ar eich eiddo.
- Gwneud chi'n fethdalwr os bydd arnoch chi dros £5,000.

# Ein syniadau a'n cynlluniau newydd




Rydyn ni eisiau newid y gyfraith i gasglu'r Dreth Gyngor sydd heb ei thalu mewn ffordd deg.



Ein nod ydy helpu cynghorau i gasglu dyledion yn deg ac annog pobl i ofyn am help yn gynnar.



Rydyn ni wedi meddwl am newidiadau wrth geisio cadw'r broses yn syml. Y nod ydy gwneud yn siŵr bod y rheolau'n glir ac yn deg fel bod pawb yn talu eu treth.



Mae angen casglu trethi ar amser i gefnogi gwasanaethau fel ysgolion a gofal.

## Newidiadau i hysbysiadau atgoffa



Mae cynghorau'n defnyddio negeseuon testun, negeseuon e-bost, neu alwadau i atgoffa pobl am daliadau sydd wedi cael eu methu. Rydyn ni eisiau i hyn barhau.



Rydyn ni'n credu y dylai cynghorau bob amser anfon hysbysiad atgoffa pan fydd taliad yn cael ei fethu. Mae'r cyngor yn gallu penderfynu pryd i'w anfon.




Fe fydd yr hysbysiad atgoffa'n dangos y swm sy'n ddyledus ond ni fydd yn nodi dyddiad cau. Mae cynghorau'n gallu anfon mwy o nodiadau atgoffa gyda chyngor, neu ofyn i bobl gysylltu â'r cyngor am help.

## Newidiadau i hysbysiadau terfynol



Fe ddylai pobl bob amser gael rhybudd terfynol a chael digon o amser i gymryd camau cyn i'r cyngor fynd â nhw i'r llys. Mae anfon hysbysiadau terfynol yn arfer dda ac yn gwneud y broses yn glir.




Dim ond ar ôl anfon o leiaf 1 hysbysiad atgoffa y dylai cynghorau anfon hysbysiad terfynol. Fe ddylid anfon yr hysbysiad terfynol mwy na 14 diwrnod ar ôl yr hysbysiad atgoffa diwethaf.



Rydyn ni'n awgrymu anfon yr hysbysiad terfynol dim ond pan fydd mwy na 41 diwrnod wedi mynd heibio ers i daliad gael ei fethu. Fe ddylai roi gwybod i'r cartref fod ganddyn nhw 21 diwrnod i dalu.

## Pan fydd cartrefi'n cael cais i dalu'r swm llawn



Mae'n well i gartrefi gadw i fyny â'u taliadau Treth Gyngor i osgoi dyled.



Fe ddylen nhw gysylltu â'u cyngor cyn gynted â phosib, cyn methu taliad.



Ond rydyn ni eisiau gwneud newid lle na ddylid gofyn i gartrefi dalu'r swm llawn nes bod 62 diwrnod wedi mynd heibio ers i daliad gael ei fethu.



Mae hyn yn cynnwys gwneud yn siŵr bod 21 diwrnod wedi mynd heibio ers i'r hysbysiad terfynol gael ei anfon.



Mae hyn yn meddwl y byddwch chi'n gallu methu 3 taliad cyn y bydd y cyngor yn gallu cymryd camau i gasglu'r ddyled.

# Newidiadau i ba bryd mae cynghorau'n gallu gwneud cais am orchymyn atebolrwydd



Mae cynghorau'n gallu mynd i'r llys am orchymyn atebolrwydd 1 diwrnod ar ôl i'r swm llawn fod yn ddyledus.




Fe fydd y newidiadau'n rhoi o leiaf 63 diwrnod i bobl ar ôl methu taliad cyn i'r cyngor allu mynd â nhw i'r llys.



Fe fydd hyn yn rhoi mwy o amser i bobl gymryd y camau yma:

- cael help
- cysylltu â'r cyngor
- gweld a ydyn nhw'n gallu cael disgownt neu gynllun talu plan.

# Canllawiau arferion da i gynghorau



Mae'n bwysig bod cynghorau a chartrefi'n gweithio gyda'i gilydd i gasglu'r Dreth Gyngor sydd heb ei thalu mewn ffordd deg.



Rydyn ni eisiau helpu pobl i siarad â'u cyngor yn gynnar os ydyn nhw'n cael trafferth talu. Fel hyn, mae cynghorau'n gallu helpu mwy.





Mae cynghorau yng Nghymru eisoes yn dilyn y Protocol Treth Gyngor i helpu pobl sydd angen cymorth. Mae'r canllaw yma'n helpu cynghorau i weithio gydag eraill i gefnogi pobl. Ond dydy e ddim yn gyfraith.

Mae Llywodraeth Cymru eisiau ychwanegu canllawiau arferion da i helpu cynghorau i gasglu'r Dreth Gyngor mewn ffordd deg. Fe fydd y canllawiau'n cynnwys:



- Y ffyrdd gorau o gysylltu â phobl pan fyddan nhw'n methu taliad a chynnig cyngor ar ddyledion.





- Cael camau clir ar gyfer hysbysiadau atgoffa a hysbysiadau terfynol.



- Edrych i weld a ydy rhywun yn gallu cael disgownt neu ostyngiad.



- Cynnig cynlluniau talu a newid dyddiadau talu, neu newid i 12 taliad misol.





- Annog cynlluniau talu hirach pan fo angen.



- Rhannu enghreifftiau o beth sydd wedi gweithio'n dda.




- Siarad am unrhyw newidiadau i’r gyfraith.



Mae pa mor dda y bydd hyn yn gweithio yn dibynnu ar faint o bobl fydd yn cymryd rhan a’u sefyllfa.



Fe fydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda chynghorau i greu’r canllawiau yma. Y nod ydy helpu pobl yn gynnar ac arbed amser ac arian yn nes ymlaen.